

Defnyddio a / ac â / ag
(gan Elin Meek)

Ymarfer 1 : Llenwch y bylchau, gan dreiglo lle bo angen:

1. Roedd y ddau'n chwerthin yn cael hwyl pan welais nhw ddiwethaf.
2. Doedd hi ddim yn braf ddoe roedd yn rhaid aros yn y tŷ drwy'r dydd.
3. Braf yw cwrdd cyfeillion teulu bob amser.
4. Bu'n rhaid iddo ymladd amryw o bobl cyn cael ei haeddiant.
5. Darllenais y llyfr cafodd ganmoliaeth fawr. (*which, that*)
6. Ffrind gorau Huw oedd Carwyn a byddai'n dod ef adref weithiau.
7. bydd hi'n bosib i chi agor cau'r sesiwn?
8. 'r criw ar wyliau eleni eto, ond nid ydynt wedi trefnu pryd eto.
9. Mentrais siarad ef am y wers collais nos Fawrth.
10. Bydd angen nerth egni i gopïo'r holl waith pensel.
11. Roedd pawb yn gweithio mor ddiwyd gwenyn.
12. gofynnoch chi i bawb ddod i'r parti?
13. Torrais y papur i gyd siswrn.
14. Paid ymhél pethau fel yna, da ti!
15. Mae'r tŷ..... codwyd y llynedd yn edrych yn ddi-raen yn barod.
16. Nid oedd y dŵr cyn laned arfer.
17. cawsoch chi'r llythyr anfonais atoch?
18. Cysylltais 'r swyddog arall er mwyn gofyn oedd wedi derbyn
..... darllen fy llythyr.

Atebion Tasg a / ac â / ag

1. Roedd y ddau'n chwerthin **ac** yn cael hwyl pan welais nhw ddiwethaf.
(Cysylltair – and + Treigladd Llaes)
2. Doedd hi ddim yn braf ddoe **ac** roedd yn rhaid aros yn y tŷ drwy'r dydd.
(Cysylltair – and – ac roedd)
3. Braf yw cwrdd **â** chyfeillion **a** theulu bob amser.
(i. Arddodiad - gyda, efo - with + Treigladd Llaes ii. Cysylltair – and + Treigladd Llaes)
4. Bu'n rhaid iddo gystadlu **ag** amryw o bobl i ennill y wobr.
(Arddodiad yn dilyn berfenw - cystadlu â > ag cyn llafariad))
5. Darllenais y llyfr **a** gafodd ganmolïaeth fawr.
(Rhagenw perthynol - which, that, + Treigladd Meddal)
6. Ffrind gorau Huw oedd Carwyn **a** byddai'n dod **ag** ef adref weithiau.
(i. Cysylltair – and; ii. Arddodiad yn dilyn berfenw - dod â > ag cyn llafariad)
7. **A** fydd hi'n bosib i chi agor **a** chau'r sesiwn?
(i Geiryn gofynnol + Treigladd Meddal; ii Cysylltair - and + Treigladd Llaes)
8. **Â**r criw ar wyliau eleni eto, ond nid ydynt wedi trefnu pryd eto.
(i. 3ydd unigol presennol cryno **mynd** - y mae'r criw'n mynd)
9. Mentrais siarad **ag** ef am y wers **a** gollais nos Fawrth.
(i. Arddodiad yn dilyn siarad – siarad â > ag cyn llafariad; ii. Rhagenw perthynol - which, that, + Treigladd Meddal)
10. Bydd angen nerth **ac** egni i gopïo'r holl waith **â** phensel.
(i. Cysylltair - and > ac cyn llafariad ii. Arddodiad - gyda, efo – with + Treigladd Llaes)
11. Roedd pawb wrthi'n gweithio mor ddiwyd **â** gwenyn. (Arddodiad - as)
12. **A** ofynnoch chi i bawb ddod i'r parti? (Geiryn gofynnol + Treigladd Meddal)
13. Torrais y papur i gyd **â** siswrn. (Arddodiad - gyda, efo – with)
14. Paid **ag** anghofio da ti! (Arddodiad yn dilyn berf - peidiwch â > ag cyn llafariad)
15. Mae'r tŷ **a** godwyd y llynedd yn edrych yn ddi-raen yn barod.
(Rhagenw perthynol - who, whom, which, that + Treigladd Meddal)
16. Nid oedd y tŷ cyn laned **ag** arfer. (Arddodiad - as)
17. **A** gawsoch chi'r llythyr **a** anfonais atoch? (i. Geiryn gofynnol + T.M. ii. Rhagenw perthynol - who, whom, which, that **dim** newid cyn llafariad.)
18. Cysylltais **â**r swyddog arall i ofyn **a** oedd wedi derbyn **a** darllen fy llythyr.
(i. Arddodiad yn dilyn berf - cysylltu â; ii. Geiryn gofynnol – **dim** newid cyn llafariad; iii. Cysylltair - and)